Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros 'Zoom'
**Nos Iau 17 Ebrill 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Huw Jones

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Mary Hayes

**2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2025.

**3. Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1 Seddi Gwag -** Cadarnhawyd fod y Clerc wedi ail-hysbysebu'r seddi wag. Dim diddordeb hyd yn hyn – ar y gweill.

**3.2 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, a chadarnhawyd fod y gwelliannau ar y rhaglen waith – ar y gweill.

**3.4 Cais bin baw ci –** Cadarnhawyd fod y Cyngor wedi gwneud cais ychwanegol am fin baw ci ger mynediad Lôn Las ar Allt Cerrigllwydion – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.5 Cae'r Gors -** Arwyddion wedi ei daro ac angen ei ail osod – ar y gweill.

**3.6 Gordyfiant -** Tyfiant angen ei dorri rhwng fferm Bwlch ac Arafon, y Clerc wedi hysbysu Ian Morgan, Cyngor Gwynedd. Y Clerc i tynnu sylw at yr Cyngor ac ofyn os oes yn diweddariad.

**3.7 Lliwen Morris - 5% chwyddiant ar rent canolraddol, Cae'r Gors** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian AS ar ganol edrych ar y mater hwn. Cadarnhaodd y clerc na chafwyd ymateb hyd yn hyn.

**3.8 Glanhau cysgodfannau bws -** Y Clerc wedi gofyn i Swyddog Cynnal y Bartneriaeth ymgymryd â'r gwaith glanhau, y clerc i ddilyn i fyny ar hyn. – ar y gweill.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2025'

**4.1 Cyng. Beca Roberts – Zip World Cronfa Waddol Cymunedol.** Cadarnhawyd fod y Cyngor wedi ddarllen yr llythyr gan y Cyng. Beca Roberts i rhoi pwysau ar *Zip World* i ddatblygu Cynllun ymgysylltu er mwyn cael mewnbwn pobol lleol ar y cynlluniau, i gynnal asesiadau effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac i ddatblygu *'Community Endowment Fund'*. Y Clerc i anfon e-bost at Cyng. Beca Roberts yn cadarnhau cefnogaeth y Cyngor i'r cynllun ymgysylltu.

Penderfynwyd y byddai Cyng. Dafydd Roberts yn cynrhychioli yr Cyngor Cymunedol yn y Cyfarfod 'Llunio Cynllun Buddion Cymunedol' a gynhelir yn *Zip World*, Bethesda ar y 1af o Fai 2025

**4.3 Cyfeillion Llyn. Llythyr Agored Polisi Gosod Lleol – Cymraeg 2050.** Trafodwyd pwysigrwydd ystyried y Gymraeg o ran osod tai – dim weithredu.

**4.5 Fforwm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri –** Cadarnhawyd presendoldeb y Cyng. Lowri Jones yn yr Fforwm ar yr 8fed o Fai.

**4.6 Arolygon Cymunedol – Cyngor Gwynedd –** Trafodwyd y cynigion draft i gyfuno wardiau Llandygai, St.Anns a Tregarth. Cytunwyd y cyngor fod yna fantais i uno'r wardiau. Dywedwyd ni fydd yr gyfuniad yn cael effaith negyddol ar y ffordd mae'r cyngor eisoes yn weithredu ac yn cydweithredu.

**4.7 Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen, Cais am rhodd –** Penderfynwyd peidio â chynnig rhodd eleni. Cadarnhawyd y bwysigrwydd o gefnogi mentrau lleol.

**4.8 Gwahoddiad helpu lunio Cynllun Buddion Cymunedol Zip World –** Trafodwyd yr gwahoddiad yma uchod yn pwynt 4.1

**5. Gwaith y mis**

**5.1 Difrod i wâl, Ty'n Lon –** y Clerc i adrodd i Cyngor Gwynedd am ddifrod i'r wal.

**5.2 Torri Llwybrau –** Cyng. Dafydd Owen i gysylltu a Thomas Shaw ac ychwanegu'r clerc i'r cyfathrebiadau e-bost.

**5.3 Ffordd Tan Rhiw / Bro Sir Ifor** –Trafodwyd materion parcio ar y ffordd hon a thrafferthion traffig yn mynd drwodd, yn enwedig Bysus Cyhoeddus. Y Clerc i ofyn i'r cyngor asesu'r sefyllfa - ystyried llinellau melyn. Trafodwyd y syniad y ddylai Adra Cyf fod yn rhan o greu rhagor o leoedd parcio yn yr ardal – Y Clerc i cysylltu a nhw.

**5.4 Lon Dinas** – Trafodwyd problemau ynghylch pobl yn defnyddio'r cilfannau fel mannau parcio, cyflwr y ffordd ar yr ochrau yn dioddef - Y Clerc i gysylltu â Cyngor Gwynedd ac annog asesiad.

**6. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**6.1 Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru- Cynrychioli Ardal Dyffryn Ogwen, Cyswllt Chwarel Penrhyn –** Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ar y 9fed o Ebrill, ond byddai'n rhannu cofnodion y rhain pan fyddant yn cael eu rhoi.

**7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**7.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| **Geiriau Gwyn** | Cyfieithu Mis Chwefror | £108.00 |
| **Geiriau Gwyn** | Cyfieithu Mis Ionawr | £108.00 |
| **Partneriaeth Ogwen** | Gwasanaeth Clercio a Ddatblygu | £11,023.57 |
| **Partneriaeth Ogwen** | Cyfraniad Costau Rhedeg Llyfrgell | £1675.68 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau |

| | |
|---|---|
| | draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0997/16/LL** | Hen Pandy Craig Y Pandy, Tregarth<br>Newid defnydd uned wyliau yn dŷ annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1058/16/LL** | Parth 3 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Adeiladu 4rh. uned ddiwydiannol newydd a thirlunio allanol cysylltiedig ar Lain C3 ym Mharc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor.**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0111/16/DT** | 3 Hendypeg, Tregarth<br>Gosod pwmp gwres Riello<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0003/16/DT** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Codi 3 boeler biomas ( cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0048/16/CR** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, Mynydd Llandygai<br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0042/16/LL** | Parth 4 Parc Bryn Cegin, Llandygai |

| | |
|---|---|
| | Bwriad i godi 4 uned ddiwydiannol o fewn un adeilad ynghyd a ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad<br>**Penderfyniad:** ar y gweill |
| **C24/0934/16/LL** | Uned Porth Penrhyn, Bangor<br>Caniatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0242/16/DT** | Bodfeurig Farm Cottage, Sling, , Tregarth, Bangor, LL57 4RL. Gosod ty gwydr ac ystafell ardd o fewn gardd yr eiddo.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill |
| **C25/0319/16/DT** | 22 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AH. Estyniad llawr cyntaf cefn. **Penderfyniad:** Ar y gweill |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C25/0184/16/LL** | Codi adeilad masnachol/diwydiannol newydd (dosbarth defnydd B2/B8), creu maes parcio ynghyd â gwaith cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi. |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.